

# Safonau'r Iaith Gymraeg: Cynllun Gweithredu

**Mawrth 2018**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## 1 Cyflwyniad

Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 y fframwaith ar gyfer datblygu safonau Gymraeg newydd, sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn rhai gwasanaethau yn y Gymraeg. Oddi mewn i'r fframwaith hwnnw, paratôdd Comisiynydd y Gymraeg gyfres o safonau, wedi'u teilwra ar gyfer gweithgareddau categorïau amrywiol o sefydliadau. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn dod o dan *Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017*.

Hefyd cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio i bob sefydliad, yn datgan y safonau penodol yn y Rheoliadau sy'n berthnasol i'r sefydliad hwnnw. Cawsom ein hysbysiad cydymffurfio ni ym mis Medi 2017 ac rydym wedi cyhoeddi copi ar ein gwefan.

Dyma ein **Cynllun Gweithredu**, sy'n datgan sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i ni.

Drwy gydol y ddogfen, lle rydym yn dweud ein bod yn darparu gwasanaethau i:

- **unigolyn**, fel rheol mae hyn yn golygu **aelod o'r cyhoedd neu fyfyrwr**.
- **person**, fel rheol mae hyn yn golygu **unrhyw un**, gan gynnwys aelodau o staff y brifysgol.

## 2 Safonau gwasanaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg

2.1 Dim ond i weithgareddau penodol, wedi'u dynodi a gyflawnir gan CCAUC mae'r safonau gwasanaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel safonau gwasanaeth) yn berthnasol:

- **Cwynion**
- Dyfarnu **grantiau** a darparu **cymorth ariannol** i unigolion
- **Galwadau** i brif rif ffôn
- **Arwyddion** ar adeilad.

### Gohebiaeth

2.2 Rydym yn croesawu negeseuon e-bost, llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

2.3 Pan rydym yn derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, byddwn yn ymateb yn y Gymraeg. (Safon 1.)

2.4 Pan rydym yn dechrau gohebiaeth ag **unigolyn** mewn perthynas ag un o'r gweithgareddau sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth (2.1 uchod), byddwn yn gofyn a ydynt yn dymuno gohebu yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Os ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, byddwn yn cadw cofnod o hyn ac yn anfon gohebiaeth atynt yn y Gymraeg. (S2.)

2.5 Pan fyddwn yn anfon yr un ohebiaeth sy'n berthnasol i weithgareddau sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth at sawl **person**, byddwn yn anfon fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwn yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg. (S4.)

2.6 Os nad ydym yn gwybod a yw person yn dymuno gohebu yn y Gymraeg, byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth sy'n berthnasol i weithgareddau sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth. (S5.)

2.7 Os byddwn yn llunio fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, ni fydd y fersiwn Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (ee, os yw'r fersiwn Saesneg wedi'i lofnodi, neu os byddwn yn darparu manylion cyswllt ar y fersiwn Saesneg, bydd y fersiwn Cymraeg yn cael ei drin yn yr un ffordd). (S6.)

2.8 Mae'r holl ohebiaeth e-bost gan CCAUC yn cynnwys troednodyn dwyieithog yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ein templedi llythyrau a chylchlythyrau'n cynnwys neges debyg. (S7.)

2.9 O ran ymarferoldeb llunio neu dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg:

- Mae gan CCAUC contractau gyda chyfieithwyr Cymraeg allanol ac mae'r holl aelodau o staff wedi cael gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

- Fel rheol mae staff Cymraeg eu hiaith CCAUC ar gael i gynghori ar gynnwys gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg; fel arall, gellir anfon yr ohebiaeth yn uniongyrchol at gyfieithwyr allanol.
- 2.10 Mae'r staff presennol yn cael gwybod am y gofynion hyn fel rhan o'n hyfforddiant ar safonau'r iaith Gymraeg. Bydd staff newydd yn cael gwybod am y gofynion drwy gyfrwng eu proses groesawu. Mae copi o'r Cynllun Gweithredu ar gael yn adran adnoddau Cymraeg Mewnwyd y staff ar gyfer cyfeirio ato'n hwylus.

## Galwadau Ffôn

- 2.11 Mae'r aelodau o staff sy'n gyfrifol am ateb rhif prif switsfwrdd CCAUC yn cyfarch pawb sy'n galw yn y Gymraeg ac yn Saesneg. (S8.)
- 2.12 Bydd staff y switsfwrdd yn trosglwyddo galwr sy'n dymuno siarad Cymraeg i sylw aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gallu darparu gwasanaeth am y mater penodol. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar bwnc perthnasol, bydd staff y switsfwrdd yn esbonio'r sefyllfa ac yn trosglwyddo'r alwad i aelod o staff a fydd yn delio â'r mater yn Saesneg, fel y caniateir gan ein hysbysiad cydymffurfio. (S11.)
- 2.13 Mae ein rhestr ffôn fewnol yn tynnu sylw at y siaradwyr Cymraeg, fel bod staff y switsfwrdd yn gallu dewis y staff a all ymateb i alwadau ffôn yn y Gymraeg.
- 2.14 Mae tudalennau cyswllt ein gwefan yn datgan ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg, ac mae'r neges ar y peiriant ateb tu allan i oriau'n rhoi gwybod i bawb sy'n galw bod croeso iddynt adael neges yn y Gymraeg. (S14, S16.)
- 2.15 Os bydd galwr yn cysylltu ag aelod o staff ar rif ffôn llinell uniongyrchol yn y Gymraeg, bydd yr aelod o staff yn ymateb yn y Gymraeg os yw'n gallu gwneud hynny. Os nad yw'r aelod hwnnw o staff yn gallu siarad Cymraeg, bydd yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg, i ddarparu gwasanaeth ar y mater hwnnw. Os nad oes aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gallu darparu gwasanaeth yng nghyswllt y mater perthnasol, bydd yr aelod o staff a dderbyniodd yr alwad yn delio a hi yn Saesneg, fel y caniateir gan ein hysbysiad cydymffurfio. (S19.)
- 2.16 Mae'r staff i gyd yn cael cyfarwyddyd i gyfarch pawb sy'n ffonio eu rhifau ffôn llinell uniongyrchol yn ddwyieithog. (S20.)
- 2.17 Wrth sefydlu cyswllt dros y ffôn gydag **unigolyn** am y tro cyntaf am weithgaredd sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth (2.1, uchod), byddwn yn gofyn a ydynt yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn y Gymraeg. Byddwn yn cadw cofnod o'r rhai sy'n dymuno siarad yn y Gymraeg. Byddwn yn cynnal pob galwad ffôn gyda hwy o hynny ymlaen yn y Gymraeg, ac eithrio (fel y caniateir gan ein hysbysiad cydymffurfio) pan fydd rhaid i aelod o staff nad yw'n siarad

Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol pan nad oes unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwneud hynny. (S21.)

### **Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd**

- 2.18 Os byddwn yn gwahodd **un person** yn unig i gyfarfod am weithgaredd sy'n dod o dan safonau gwasanaeth CCAUC, byddwn yn gofyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Os nad yw'r staff sy'n rhan o'r cyfarfod yn gallu cynnal y cyfarfod yn y Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael (S24, S24A.)
- 2.19 Os byddwn yn gwahodd **mwynag un person** i gyfarfod am weithgaredd sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth, byddwn yn gofyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os bydd o leiaf 10% yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael (oni bai fod pawb sy'n bresennol yn gallu cynnal y cyfarfod yn y Gymraeg). (S27, S27A.)

### **Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd a digwyddiadau cyhoeddus**

- 2.20 O dro i dro, rydym yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ein cyfarfod cyhoeddus blynyddol a digwyddiadau achlysurol i ddangos gweithgareddau prifysgolion. Nid yw cyfarfodydd sy'n cynnwys staff prifysgolion yn unig, i drafod materion perthnasol i bolisiâu CCAUC, yn cael eu hystyried fel cyfarfodydd cyhoeddus.
- 2.21 Ar gyfer pob cyfarfod neu ddigwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn llunio'r gwahoddiadau a'r deunyddiau sy'n hysbysebu'r cyfarfod yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y gwahoddiadau a'r deunyddiau sy'n hysbysebu'n nodi bod croeso i'r rhai fydd yn mynychu ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Bydd y ffurflen ymateb yn cynnwys adran i'r ymatebwyr nodi'r iaith o'u dewis. (S30, S31.)
- 2.22 Byddwn yn gofyn i'r holl siaradwyr mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd a ydynt yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn unol â hynny. (S32.)
- 2.23 Mae croeso i'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd gyfrannu yn y Gymraeg neu yn Saesneg, a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod. Ar ddechrau'r cyfarfod neu'r digwyddiad, byddwn yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n bresennol, yn y Gymraeg, bod croeso iddynt ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. (S33.)
- 2.24 Bydd y deunydd ysgrifenedig y byddwn yn ei arddangos mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys ein hadroddiad blynyddol, unrhyw gyhoeddiad a lunnir yn benodol ar gyfer y digwyddiad, a baneri hyrwyddo. (S34.)

- 2.25 Byddwn yn sicrhau bod gofynion yr iaith Gymraeg yn cael eu bodloni mewn unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus lle rydym yn darparu o leiaf 50% o'r costau. (S35, S36.)

### **Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu**

- 2.26 Bydd ein deunyddiau cyhoeddusrwydd a hysbysebu'n cael eu llunio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fyddwn yn trin fersiynau Cymraeg yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg. (S37.)

### **Arddangos Deunydd yn Gyhoeddus**

- 2.27 Bydd unrhyw ddeunydd y byddwn yn ei arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fyddwn yn trin fersiynau Cymraeg yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg. (S38.)

### **Llunio a chyhoeddi dogfennau**

- 2.28 Bydd yr holl ddogfennau a lunnir at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiad blynyddol, y strategaeth gorfforaethol, a'r adroddiad cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd unrhyw ddogfennau a lunnir at ddefnydd y myfyrwyr ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cylchlythyrau polisi CCAUC yn cael eu llunio ar gyfer eu defnyddio gan gynulleidfaoedd targed bach mewn prifysgolion, yn hytrach nag at ddefnydd y cyhoedd, ac maent yn cael eu llunio yn Saesneg. Byddwn yn cyhoeddi cylchlythyrau yn y Gymraeg ac yn Saesneg os ydynt yn ymwneud â mater sy'n dod o dan ein safonau gwasanaeth Cymraeg. (S43.)
- 2.29 Os ydym yn cyhoeddi deunydd yn ddwyieithog, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd mewn un ddogfen, oni bai fod ei maint yn gwneud hyn yn anymarferol. Bydd unrhyw fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac ar gael yn yr un modd. Bydd pob un yn cynnwys neges yn nodi bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall. (S51, S52.)

- 2.30 Rydym yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Llunio a chyhoeddi ffurflenni**

- 2.31 Rydym yn llunio pob ffurflen at ddefnydd y cyhoedd neu fyfyrwyr (hy unigolyn) yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn cynnwys ffurflenni cais am swydd, ffurflenni cais am aelodaeth o bwyllgor, a ffurflenni teithio a chynhaliaeth allanol. (S53.)
- 2.32 Os ydym yn llunio ffurflenni ar wahân yn y Gymraeg ac yn Saesneg, bydd pob un yn nodi bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall. Ni fydd y fersiwn Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. (S53A a 53B.)

2.33 Bydd gwybodaeth sydd wedi'i nodi ymlaen llaw ar ffurflen Gymraeg yn y Gymraeg. (S54.)

### **Y wefan a gwasanaethau ar-lein**

2.34 Mae'r testun ar bob tudalen ar ein gwefan ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r tudalennau Cymraeg yn gweithio'n llawn ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. (S55.)

2.35 Mae gan bob tudalen Saesneg ar y wefan ddolen gyda'r label *Cymraeg* arni, yn cysylltu'n uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol. (S58.)

2.36 Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar holl dudalennau Cymraeg y wefan yn y Gymraeg. (S59.)

### **Cyfryngau Cymdeithasol**

2.37 Mae'r negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol (Twitter a LinkedIn) yn y Saesneg a'r Gymraeg, ac ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (S62.)

2.38 Pan fydd person yn cysylltu â ni ar gyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg, bydd ein hadran gyfathrebu'n ateb yn y Gymraeg, os oes angen ymateb. (S63.)

### **Arddangos Arwyddion**

2.39 Mae ein harwyddion allanol a mewnol yn ddwyieithog. Mae'r testun Cymraeg a Saesneg ar yr arwyddion dwyieithog yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd. (S65.)

2.40 Bydd y testun Cymraeg ar yr arwyddion dwyieithog newydd yn cael ei leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Byddwn yn adolygu'r arwyddion presennol i wirio bod hyn yn wir hefyd. (S66.)

2.41 Mae'r testun Cymraeg ar yr arwyddion yn cael ei wirio gan gyfieithydd neu berson addas arall cyn eu gosod yn eu lle, er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl gywir o ran ystyr a mynegiant. (S67.)

### **Derbyn Ymwelwyr**

2.42 Mae CCAUC yn denant mewn adeilad a reolir gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu gwasanaethau derbynfa ar gyfer yr adeilad cyfan, ac mae'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. (S68, S72.)

- 2.43 Mae Llywodraeth Cymru'n arddangos arwydd yn y dderbynfa sy'n datgan (yn ddwyieithog) bod gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael, a bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y dderbynfa. (S71.)

### **Hysbysiadau**

- 2.44 Mae holl hysbysiadau CCAUC yn ddwyieithog yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gyda phob iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg ar hysbysiadau newydd yn cael ei leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. (S73, S74.)
- 2.45 Pan fydd CCAUC yn arddangos hysbysiadau a ddarperir gan sefydliadau eraill, byddwn yn sicrhau ac yn arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg, os ydynt ar gael.

### **Dyfarnu Grantiau a Darparu Cymorth Ariannol**

- 2.46 O dan unrhyw gynlluniau lle rydym yn dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol i ymgeiswyr unigol (myfyrwyr, neu aelodau unigol o'r staff academiaidd), byddwn yn cyhoeddi'r dogfennau perthnasol i'r ceisiadau yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn nodi bod posib cyflwyno'r ceisiadau yn y Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg. (S75, S76, S76A.)
- 2.47 Gallwn gyfwrdd ymgeiswyr unigol am grantiau neu gymorth ariannol yn y Gymraeg ar gyfer ymgeiswyr a ymgeisiodd yn y Gymraeg, gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen. (S78.)
- 2.48 Os cyflwynir cais am grant neu gymorth ariannol yn y Gymraeg, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ganlyniad ein penderfyniad yn y Gymraeg. (S79.)

### **Dyfarnu Contractau**

- 2.49 Fel sy'n ofynnol yn ein hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn cyhoeddi unrhyw wahoddiad i dendro am gontract yn y Gymraeg ac yn Saesneg, os yw'r pwnc dan sylw yn y contract yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn y Gymraeg hefyd, neu os yw'r gynulleidfa ddisgwyliedig neu ei disgwyliadau'n awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn y Gymraeg. Mae ein Ffurflen Awdurdodi Caffael yn manylu bod rhaid i'n Rheolwr Caffael, cyn y gellid bwrw ymlaen â thendr, wirio a yw pwnc y tendr neu'r gynulleidfa ddisgwyliedig yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro yn y Gymraeg. (S80.)
- 2.50 Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro ar gyfer unrhyw gontract, byddwn yn nodi yn y gwahoddiad bod posib cyflwyno tendr yn y Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. (S81, S81A.)



- 2.51 Os byddwn yn derbyn tendr yn y Gymraeg a bod angen cyfweld y tendrwr fel rhan o'r broses asesu, byddwn yn cynnig cynnal y cyfweliad yn y Gymraeg ac, os oes angen, byddwn yn darparu'r cyfleusterau cyfieithu gofynnol i wneud hynny. (S83.)
- 2.52 Bydd pawb sy'n cyflwyno tendr yn y Gymraeg yn cael gwybod am y canlyniad yn y Gymraeg. (S84.)
- 2.53 Mae dogfennau ein polisi caffael, ein gweithdrefnau prynu a'n cyfarwyddiadau i dendrwr yn cynnwys y gofynion uchod ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau.

### **Hunaniaeth Gorfforaethol**

- 2.54 Rydym wedi ymrwmo i hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, fel y mynegir gan ein henw, ein cyfeiriad, ein logo a'r wybodaeth safonol arall fel mae'n ymddangos ar ein papur ysgrifennu, ar ein harwyddion mewnol ac allanol yn ein swyddfa, mewn hysbysebion ac arddangosfeydd, ar y wefan ac ar faneri. (S87.)
- 2.55 Mae acronym ein henw yn ymddangos yn Saesneg yn unig – HEFCW – ar ein logo i gydnabod sut mae siaradwyr Saesneg a Chymraeg wedi cyfeirio atom yn hanesyddol. Er bod hyn yn cael ei ganiatáu o dan delerau ein hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn adolygu hyn yn y dyfodol os byddwn yn ailgynllunio ein logo neu'n diwygio ein hunaniaeth gorfforaethol. (S87.)

### 3 Safonau llunio polisiau

#### Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg

- 3.1 Wrth ffurfio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi presennol, byddwn yn ystyried y canlynol:
- i) pa effaith (os o gwbl), yn bositif neu niweidiol, fyddai'r polisi'n ei chael ar:  
(a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg; a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  - ii) sut gellid ffurfio'r polisi (a sut gellid newid polisi presennol) fel bod y penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau positif cynyddol, ar: (a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg; a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  - iii) sut gellid ffurfio'r polisi (a sut gellid newid polisi presennol) fel nad yw'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau niweidiol, neu byddai'n cael llai o effeithiau niweidiol, ar: (a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg; a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.2 Rydym yn defnyddio ffurflen sgrinio asesiad effaith, sy'n cynnwys y cwestiynau uchod, i asesu effeithiau posib polisiau newydd neu adolygedig ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Mae adran iaith Gymraeg y templed ar gyfer papurau'r Cyngor a'r Pwyllgorau hefyd yn cynnwys y gofyniad hwn. (S94, S95, S96.)
- 3.3 Pan rydym yn cyhoeddi papur ymgynghori perthnasol i benderfyniad polisi, byddwn yn cynnwys adran sy'n gofyn am farn ar y cwestiynau uchod. Mae'r templed ar gyfer cylchlythyrau CCAUC yn annog y staff i wneud hyn pan maent yn paratoi cylchlythyrau ymgynghoriad. (S97, S98, S99.)
- 3.4 Pan rydym yn comisiynu neu'n cynnal ymchwil i'n cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried y cwestiynau uchod. (S101, S102, S103.)
- 3.5 Byddwn yn llunio polisi ar ddyfarnu grantiau neu gymorth ariannol os byddwn yn cyflwyno unrhyw gynlluniau cyllido o'r fath i unigolion (myfyrwyr, y cyhoedd) ymgeisio iddynt. (S100.)

## **4 Safonau gweithredol**

### **Defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol**

- 4.1 Mae ein polisi ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ar gael ar ein Mewnwrwyd.
- 4.2 Mae ein gweithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) yn cynnwys darpariaeth sy'n dweud y bydd ein hadran AD, wrth gynnig cyflogaeth o'r newydd, yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno cael ei contract cyflogaeth yn y Gymraeg. (S106.)
- 4.3 Mae'r gweithdrefnau'n darparu ar gyfer staff yn derbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n berthnasol i'w cyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio atynt hwy yn bersonol yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno. Mae ein hadran AD wedi rhoi gwybod i'r staff presennol am yr hawl yma a bydd yn rhoi gwybod am hynny i staff newydd fel rhan o'r broses benodi. (S107.)
- 4.4 Dywed y safonau y dylai staff allu derbyn y dogfennau canlynol yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno:
- anghenion a gofynion hyfforddi
  - amcanion perfformiad
  - unrhyw ddogfennau cynllunio gyrfa
  - ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith a gweithio hyblyg.
- Darperir y dogfennau hyn yn electronig drwy ein system MySite. Byddwn yn llunio fersiwn Cymraeg o MySite er mwyn darparu'r deunydd hwn i staff yn y Gymraeg. Mae ein hysbysiad cydymffurfio'n dyfarnu estyniad tan fis Ebrill 2019 ar gyfer cydymffurfio a'r mater hwn. (S108, S109, S110, S111.)
- 4.5 Byddwn yn llunio fersiynau Cymraeg o'r dogfennau gweithle canlynol ac yn eu cyhoeddi ar ein Mewnwrwyd ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg:
- ymddygiad yn y gweithle
  - iechyd a lles yn y gwaith
  - cyflogau a manteision
  - rheoli perfformiad
  - absenoldeb o'r gwaith
  - amodau gwaith
  - patrymau gweithio hyblyg.
- Bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu diweddarau ochr yn ochr â'r rhai Saesneg. (S112, S113, S114, S115, S116, S117.)

### **Cwynion a wneir gan aelod o staff**

- 4.6 Mae ein gweithdrefnau AD yn nodi y gall staff wneud cwynion i CCAUC yn y Gymraeg, ac y gallant ymateb yn y Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir yn eu herbyn. Mae ein hadran AD wedi rhoi gwybod i'r staff am hyn. (S119, S119A.)

- 4.7 Os oes angen cyfarfod ag aelod o staff am gŵyn, byddwn yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad ydym yn gallu cynnal y cyfarfod yn y Gymraeg yn dilyn cais am hynny. Byddwn yn rhoi gwybod i'r aelod o staff yn y Gymraeg am y penderfyniad a wnaed am y gŵyn os oes unrhyw ran o'r broses wedi cael ei chynnal yn y Gymraeg, fel yr amlinellir yn ein gweithdrefnau AD. (S121, S122.)

### **Disgyblu staff**

- 4.8 Gall staff ymateb yn y Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn, ac maent yn cael gwybod am yr hawl yma ar ddechrau unrhyw weithdrefnau disgyblu perthnasol iddynt. (S123, S123A.)
- 4.9 Os oes angen cynnal cyfarfod ag aelod o staff am fater disgyblu, byddwn yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno symud ymlaen yn y Gymraeg, a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad ydym yn gallu cynnal y cyfarfod yn y Gymraeg. Byddwn yn rhoi gwybod i'r aelod o staff yn y Gymraeg am y penderfyniad a wnaed ynghylch y mater disgyblu os oes unrhyw ran o'r broses wedi cael ei chynnal yn y Gymraeg, fel yr amlinellir yn ein gweithdrefnau disgyblu. (S125, S126.)

### **Technoleg Gwybodaeth a Deunyddiau Cefnogi**

- 4.10 Mae'r staff yn gallu defnyddio Cysill i wirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg, ac mae rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd ar gael. Rydym wedi tynnu sylw at argaeledd y feddalwedd hon a'r rhyngwynebau ar y dudalen Fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunyddiau cefnogi i hybu'r iaith Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r deunydd hwn yn gyson ac yn ychwanegu unrhyw becynnau meddalwedd a rhyngwynebau newydd perthnasol fel sy'n briodol. (S127.)
- 4.11 Mae gennym dudalen sblash ddwyieithog ar ein Mewnrwyd. Mae'r botymau a'r teitlau yn yr hafan ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'r rhyngwynebau a'r dewislenni ar gyfer gweddill y Fewnrwyd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. (S129, S133.)
- 4.12 Rydym yn parhau i adolygu'r adran ar ein Mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunyddiau cefnogi i gynorthwyo'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae'n cynnwys dolenni at y canlynol: geiriaduron a geirfaoedd; ein gweithdrefnau cyfieithu; gwybodaeth am safonau'r iaith Gymraeg; gwybodaeth am feddalwedd gyfrifiadurol i gefnogi'r iaith Gymraeg; ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol; cyrsiau hyfforddi Cymraeg; geiriad ein llofnod e-bost dwyieithog a'n negeseuon allan o'r swyddfa. (S132.)

## **Datblygu sgiliau Cymraeg drwy gynlluniau a hyfforddiant gweithlu**

4.13 Rydym yn cynnal arolwg ar-lein blynyddol ar sgiliau Cymraeg ein holl staff. (S134.)

4.14 Rydym yn annog y staff i ddysgu Cymraeg ac yn darparu cyfleoedd ar sawl lefel wahanol:

- Gwersi Cymraeg sylfaenol, am ddim yn ystod oriau gwaith. (S138.)
- Datblygiad sgiliau iaith am ddim i staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Cymraeg sylfaenol. (S139.)
- Rydym yn trefnu i staff sy'n ddigon medrus yn y Gymraeg fynychu cyrsiau a ddarperir yn allanol i'w helpu i ddefnyddio'r iaith mewn cyfarfodydd ac mewn gweithgareddau proffesiynol eraill. (S136.)

4.15 Mae'r safonau'n manylu y dylem ddarparu cyrsiau hyfforddi ar y canlynol:

- ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg;
- gofynion safonau'r iaith Gymraeg; a
- dealltwriaeth o sut gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Rydym wedi darparu hyfforddiant cychwynnol ar safonau'r iaith Gymraeg a byddwn yn parhau â'r gweithgareddau hyfforddi a datblygu hyn drwy gydol y flwyddyn. (S140.)

4.16 Rydym wedi nodi'r gofynion i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg mewn perthynas ag agweddau amrywiol ar reolaeth linell, a byddwn yn ystyried y gofyniad hwnnw wrth gynllunio hyfforddiant ar gyfer unrhyw staff sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau rheolaeth linell yn y Gymraeg. (S135.)

4.17 Byddwn yn ehangu ein sesiwn cyflwyno'r iaith Gymraeg ar gyfer staff newydd i gynnwys goblygiadau safonau'r Gymraeg fel maent yn berthnasol i CCAUC. (S141.)

4.18 Rydym wedi darparu logos (isod) i staff i'w cynnwys gyda llofnodion e-bost, fel eu bod yn gallu dangos a ydynt yn siarad y Gymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r Gymraeg. Fel rhan o'n hyfforddiant ar safonau'r Gymraeg, byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg i ddefnyddio'r logos hyn. (S142.)



- 4.19 Rydym yn darparu geiriad i staff i gael fersiynau dwyieithog o'u llofnod e-bost a'u neges allan o'r swyddfa. Atgoffir y staff i'w defnyddio yn ystod ein hyfforddiant ar safonau'r Gymraeg. (S143.)
- 4.20 Mae gennym gyflenwad o fathodynau sy'n dangos gallu i siarad y Gymraeg ac rydym yn annog y staff Cymraeg eu hiaith i'w gwisgo. Hefyd mae gennym gyflenwad o labeli ar linydd sy'n dangos gallu i siarad y Gymraeg neu fod staff yn dysgu'r Gymraeg, ac rydym yn annog y staff i'w defnyddio. (S144, S144A.)
- 4.21 Rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg fel rhan o'r asesiad o'r gofynion ar gyfer swyddi newydd neu wag. Mae ein gweithdrefnau AD yn manylu bod rhaid cynnal yr asesiad hwn yn y dyfodol yn erbyn y pedwar categori o sgiliau Cymraeg sy'n cael eu datgan yn y safonau:
- hanfodol
  - angen ei dysgu wrth gael eich penodi i swydd
  - dymunol
  - ddim yn angenrheidiol. (S145.)
- 4.22 Mae ein gweithdrefnau AD yn manylu ar y canlynol:
- pan rydym yn categoreiddio swydd fel un y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, dymunol neu angen eu dysgu ar ei chyfer, byddwn yn nodi'r gofyniad hwnnw wrth hysbysebu'r swydd, a byddwn yn hysbysebu'r swydd yn y Gymraeg. (S145A.)
  - pan rydym yn hysbysebu unrhyw swydd, byddwn yn nodi bod posibil cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. (S146.)
  - pan fyddwn yn rhoi gwybod i unigolion am benderfyniad am gais am swydd, byddwn yn gwneud hynny yn y Gymraeg os gwnaed y cais yn y Gymraeg. (S149.)
- 4.23 Byddwn yn darparu'r canlynol yn y Gymraeg ac yn Saesneg:
- ffurflenni cais am swyddi
  - deunydd sy'n esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am swyddi
  - gwybodaeth am y broses gyfweld
  - disgrifiadau swyddi. (S146A.)
- 4.24 Mae ffurflen gais CCAUC am swyddi gwag:
- yn darparu lle i ymgeiswyr ddynodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad.
  - yn esbonio, os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad, y byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, oni bai fod y staff cysylltiedig yn gallu cynnal y cyfweliad yn y Gymraeg heb wasanaethau cyfieithu. (S148.)

## **Arwyddion a arddangosir yn y gweithle**

- 4.25 Pan fyddwn yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ein swyddfeydd, bydd y testun yn cael ei arddangos yn y Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd. (S150.)
- 4.26 Bydd y testun Cymraeg ar arwyddion dwyieithog newydd yn ein swyddfeydd yn cael ei leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Byddwn yn adolygu'r arwyddion presennol i wirio bod hyn yn wir. (S151.)
- 4.27 Bydd y testun Cymraeg ar yr arwyddion dwyieithog sy'n cael eu harddangos yn ein swyddfeydd yn cael ei wirio gan siaradwr Cymraeg sydd â chymwysterau addas, neu gyfieithydd, cyn iddynt gael eu gosod yn eu lle, i sicrhau bod y testun yn fanwl gywir o ran ystyr a mynegiant. (S152.)

## 5 Safonau cadw cofnodion

### Cadw Cofnodion

- 5.1 Byddwn yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion rydym yn eu derbyn am ein cydymffurfiaeth â'r safonau. Bydd cwynion o'r fath yn cael eu trin yn unol â gweithdrefnau cwyno safonol CCAUC. Rydym yn cadw, yn ôl blwyddyn ariannol, am nifer y cwynion sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r safonau. (S154, S155.)
- 5.2 Byddwn yn cadw copi o unrhyw gwynion ysgrifenedig rydym yn eu derbyn yn berthnasol i'n cydymffurfiaeth â'r safonau neu unrhyw agwedd arall ar y Gymraeg. Bydd unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu trin yn unol â gweithdrefnau cwyno safonol CCAUC ac rydym yn cadw copïau o'r holl gwynion ysgrifenedig rydym yn eu derbyn. (S156.)
- 5.3 Byddwn yn cadw copïau o'r asesiadau effaith o bolisiâu newydd neu adolygedig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisiâu. (S157.)
- 5.4 Byddwn yn cadw cofnod blynyddol o sgiliau Cymraeg y staff, yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg ar-lein blynyddol rydym yn ei gynnal. (S158.)
- 5.5 Bydd ein hadran AD yn cadw cofnod blynyddol o nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant yn y Gymraeg ar agweddau ar weithgarwch rheolaeth linell. (S159.)
- 5.6 Bydd ein hadran AD yn cadw copïau o bob asesiad o ofynion sgiliau Cymraeg a gynhaliwyd ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag. (S161.)
- 5.7 Bydd ein hadran AD yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd neu wag sy'n cael eu categorio yn unol â phob un o'r lefelau a nodir yn safon 145. (S162.)



## **6 Materion ategol**

### **Rhoi cyhoeddusrwydd i safonau**

- 6.1 Gan fod y safonau'n manylu bod rhaid i ni sicrhau bod dogfen ar gael sy'n cofnodi'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredol a chadw cofnodion y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, rydym wedi cyhoeddi copi o hysbysiad cydymffurfio CCAUC gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ein gwefan. (S163, S169, S175, S181.)

### **Rhoi cyhoeddusrwydd i sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau**

- 6.2 Mae'r ddogfen bresennol hon, ein Cynllun Gweithredu, yn esbonio sut byddwn yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, y safonau llunio polisïau, y safonau gweithredol a'r safonau cadw cofnodion y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar ein gwefan. (S167, S173 S179.)

### **Rhoi cyhoeddusrwydd i drefniadau ar gyfer goruchwyllo, hyrwyddo ac ati**

- 6.3 Byddwn yn sicrhau bod gennym weithdrefnau ar gyfer goruchwyllo'r ffordd rydym yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau a gweithredol y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, ac ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau hynny. Byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar ein gwefan. (S165, S171, S177.)

### **Gweithdrefnau cwyno**

- 6.4 Byddwn yn trin unrhyw gwynion am ein cydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau a gweithredol yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yng ngweithdrefn gwyno bresennol CCAUC. Mae ein gweithdrefn gwyno, sydd ar ein gwefan, yn manylu ei bod yn berthnasol i unrhyw gwynion am ein cydymffurfiaeth â'r safonau. (S164, S170, S176.)

### **Adroddiad Blynyddol**

- 6.5 Byddwn yn llunio adroddiad blynyddol, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol sy'n delio â sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau a gweithredol. Hefyd bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau a gweithredol.
  - Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar ein harolwg ar-lein blynyddol.

- Nifer y staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant yn y Gymraeg ar agweddau ar weithgarwch rheolaeth linell.
- Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn sy'n dynodi eu gallu i siarad Cymraeg.
- Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, angen eu dysgu ar ôl penodi, yn ddymunol neu ddim yn angenrheidiol.

6.6 Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar ein gwefan ddim hwyrach na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol mae'n berthnasol iddi, a byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod wedi gwneud hynny. (S166, S172, S178.)

### **Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg**

6.7 Byddwn yn darparu i Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw wybodaeth y mae'r Comisiynydd yn gwneud cais amdani am ein cydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau a gweithredol. Hefyd byddwn yn rhoi i Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw gofnodion rydym wedi'u cadw yn unol â'r safonau cadw cofnodion, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. (S168, S174, S180, S182.)